# IS FWRDD CYFLAWNI TRAFNIDIAETH
# 7 Rhagfyr, 2020

Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais - Y Cynghorwyr - David Bithell (Cyngor Wrecsam), Robert G Parry (Cyngor Ynys Môn), Greg Robbins (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy), Gareth Wyn Griffith (Cyngor Gwynedd), Brian Jones (Cyngor Sir Ddinbych) a Carolyn Thomas (Cyngor Sir y Fflint)

Swyddogion yn Bresennol – Darren Williams (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Huw Percy (Cyngor Ynys Môn), Geraint Edwards (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy), Stephen Jones (Cyngor Sir y Fflint), Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint), Emlyn Jones (Cyngor Sir Ddinbych), Dafydd Wyn Williams (Cyngor Gwynedd), Iwan G D Evans (Swyddog Monitro – Awdurdod Arweiniol), Peter Daniels (Cyngor Sir Ddinbych) ac Einir Rh Davies (cofnodion – Awdurdod Arweiniol)

Eraill a wahoddwyd - Iwan Prys Jones (Bwrdd Uchelgais Economaidd), Lee Robinson (Trafnidiaeth Cymru), Dewi Rowlands (Llywodraeth Cymru), Claire Germain (Llywodraeth Cymru), Kate Clark (Llywodraeth Cymru) a David Willis (Llywodraeth Cymru)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Nodwyd bod y Cynghorydd David Bithell a Darren Williams yn cael trafferth ymuno a'r cyfarfod oherwydd problemau technegol. Cymerodd Y Cynghorydd Robert G Parry y Gadair at gyfer eitemau 1, 2, 3, 4, 5 a 6.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw fater brys i'w drafod.

**4. COFNODION**

Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar y 14 Medi 2020 fel rhai cywir ac fe'i cynigiwyd ac eiliwyd.

**5. MATERION YN CODI**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion.

**6. YMGYNGHORIAD CYD BWYLLGOR CORFFORAETHOL GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynwyd yr eitem gan Iwan G D Evans – Swyddog Monitro yr Awdurdod Arweiniol.

**PENDERFYNIAD**

**PENDERFYNWYD** derbyn y wybodaeth yn y papur, gan mai papur ydoedd i hysbysu'r Is-Fwrdd o'r ymgynghoriad sydd ar y gweill.

**TRAFODAETH**

Nododd Y Swyddog Monitro mai diben yr eitem oedd hysbysu yr Is-Fwrdd o'r ymgynghoriad sydd ar y gweill.

Cyfeiriodd y Swyddog Monitro at y papur roedd wedi ei baratoi oedd yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgynghoriad ar hyn o bryd ar gynigion i sefydlu Cyd Bwyllgorau Corfforedig (CBC) fesul 4 Ardal o Gymru ar sail ôl troed (Gogledd Cymru, Canolbarth Cymru, De Orllewin Cymru a De Ddwyrain Cymru).

O fewn y Bil, mae dau gategori o CBC sef CBC drwy Orchymyn a CBC drwy Gais. Cyfyngir y meysydd posib ar gyfer CBC Drwy Orchymyn ar gyfer 4 maes sef gwella addysg, trafnidiaeth (Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol), y swyddogaeth o lunio Cynllun Datblygu Strategol a'r swyddogaeth llesiant economaidd.

Cadarnhawyd bod CBC yn gyrff corfforedig ar wahân, sydd yn cael eu sefydlu drwy Gynghorau - hynny yw, yn gorfforaeth ar eu traed eu hunain, ac yn bodoli lled ar-wahân i Gynghorau.

O ran y maes trafnidiaeth, cadarnhawyd yr aelodaeth fandadol fel chwe Arweinydd Cynghorau Gogledd Cymru (gyda hawl i gyfethol). Nodwyd y byddai yr opsiwn ar gael yma i sefydlu Is-bwyllgorau.

O ran materion cyllid ac ariannu, cadarnhawyd mai y cynghorau, drwy gytundeb, sydd yn ei ariannu, ynghyd a threfnu materion craffu ac awdit, eto drwy gytundeb.

Codwyd y cwestiynau canlynol o'r drafodaeth :

- Beth fydd y berthynas ffurfiol gyda yr Awdurdodau?
- O ran materion megis craffu, cod ymddygiad ac ati, o dan ba drefniant fydd y materion hyn yn disgyn?

Diolchwyd am yr adroddiad ac derbyniwyd sylwadau fel a ganlyn :

- Bydd CBC yn mynd a phwerau oddi ar y Cynghorau. Nodwyd bod swyddogion Llywodraeth Cymru eisoes wedi cysylltu gyda rhai Aelodau o'r Is-Fwrdd, gan nodi mai cerbyd ydyw hwn i Lywodraeth Leol siapio y gwaith ac adeiladu ar y gwaith sydd eisoes wedi ei wneud
  Atgyfnerthwyd y pwynt mai cryfhau y sefyllfa, a chynnwys Aelodau yw'r bwriad, gan roi cyfle iddynt rannu eu barn yn llawn, ac yn onest ar y rheoliadau drafft hyn.

- Sut mae Trafnidiaeth Cymru a'r Asiantaeth Cefnffyrdd yn ffitio i mewn?
  Bydd apwyntio swyddogion yn bryder, yn enwedig o ddarllen y bydd y rolau yn cymryd 1-5 diwrnod o amser swyddog.
  Onid oes camsyniad yma y bydd yn arbed arian? Erbyn hyn nid oes gan gynghorau swyddogion sydd yn dyblygu gwaith.
  Sut byddent yn cael eu hariannu?
  Mae rhoi y pŵer i'r Awdurdodau Lleol i redeg eu trafnidiaeth bws eu hunain yn anodd iawn heb arbenigedd lleol.
  Nodwyd pryder hefyd am faterion llywodraethu.
  Ymatebodd Swyddog Llywodraeth Cymru gan gadarnhau mai yr unig swyddogaeth sydd yn cael ei drosglwyddo i'r CBC yw y Cynllun Trafnidiaeth Lleol a bod y gweithgareddau o

gwmpas bysiau yn aros gyda yr Awdurdodau Lleol, ac mai dewisol fyddai symud swyddogaethau eraill drosodd.
O ran Trafnidiaeth Cymru, cadarnhawyd mai corff danfon ydyw, ac y byddai yn ffitio i mewn ym mhle byddai y CBC yn dymuno iddo ffitio i mewn.
Nododd y Swyddog Trafnidiaeth Cymru bo Trafnidiaeth Cymru wedi cytuno i set o egwyddorion a'u bod yn eistedd gydag Arriva i'w cytuno. Cadarnhaodd mai rôl Trafnidiaeth Cymru mewn CBC fyddai cefnogi CBC, cynllunio rhwydweithiau, ymdrin a materion talu digyswllt ac ati.

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro bod yr Asiantaeth Cefnffyrdd yn pontio dau CBC. Ymhellach, byddai angen sgwrs ynglŷn â'r angen am swyddogion a sut byddent yn cael eu trosglwyddo.
Yn ychwanegol, o ran rôl a swyddogaethau CBC, mae modd i gynghorau ofyn i drosglwyddo rhai pethau eraill, ond yr hyn sydd ddim yn glir ar hyn o bryd yw lle mae yr hawl a'r gallu o ran datblygu CBC yn y dyfodol.

Tynnwyd sylw at y canlynol :
Mae yr ymgynghoriad yn cau ddechrau Ionawr 2021 a bwriedir i'r CBC cyntaf fod yn weithredol erbyn Medi 2021. Mae rhai Awdurdodau Lleol eisoes wedi trefnu gweithdai er mwyn diweddaru ei aelodau.
Byddai hawl gan y chwe Arweinydd fyddai yn eistedd ar y CBC apwyntio eraill ar y Pwyllgor.

Cytunwyd bod angen adborth rhanbarthol o'r awdurdodau unigol ynghyd ag unrhyw sylwadau mewn e-bost at Iwan Prys Jones a David Bithell.

Gofynnwyd am unrhyw sylwadau pellach gan yr Aelodau Cabinet cyn symud ymlaen :

- Teimlwyd bod angen gweithio tuag at CBC neu drefniant ffurfiol rhanbarthol gyda Thrafnidiaeth Cymru uwch ben, ac o dan yr un ymbarél : mae angen dod o hyd i ffordd ymlaen. Teimlwyd bo cyfle yma i amddiffyn yr agwedd cefn gwlad petai pawb yn cyd-weithio.

- Nodwyd y pryder bod y CBC yn cymryd gwaith oddi ar Awdurdodau Lleol, ond teimlwyd nad oedd fawr o ddewis ond symud ymlaen

- Mynegodd un nad oedd o blaid CBC, ond nododd os oedd rhaid gwneud, yna dylid ei wneud ar y termau mwyaf ffafriol.

- Nododd Aelod Cabinet arall nad oedd yn rhy hapus fel mae gwybodaeth yn cael ei rolio allan, ac o ganlyniad y pryder oedd ganddo nad oedd llun clir ar gael o'r materion angenrheidiol. Nododd nad oedd yn teimlo fod y modd roedd CBC i'w ariannu yn glir. Mynegodd nad oedd yn hapus gyda y broses a bod yr amserlen gyda dyddiad cau ddechrau Ionawr 2021 yn siomedig.

Cwestiynwyd hefyd faint o fewnbwn Trafnidiaeth Cymru fyddai yn hwn?
Onid ddylid cyllido ar ffurf y pen?
A fydd un Awdurdod yn arwain?

Yn ychwanegol holiwyd am argaeledd cyllid i ddatblygu Cynllun Strategol

I gloi cwestiynwyd yr union aelodaeth a hawliau phleidleisio.

Cytunwyd y byddai Iwan Prys Jones yn casglu y pwyntiau a godwyd a'i cylchredeg i Aelodau Cabinet cyn gynted a phosib gan fod yr ymgynghoriad hwn ar y gweill.

Diolchwyd i Swyddogion Llywodraeth Cymru, gan annog Awdurdodau Lleol i ymateb i'r ymgynghoriad.

Cymerodd Swyddogion Llywodraeth Cymru y cyfle i roi cyflwyniad ar Strategaeth Drafnidiaeth Newydd Cymru, ac yn arbennig datblygiadau o ran technoleg. Cadarnhawyd bo COVID wedi dod a llawer o sialensiau, ac o hynny golwg newydd ar ddanfon trafnidiaeth yng Nghymru.

Cyfeiriwyd at faterion yr amgylchedd, lleoedd a'r economi, trafnidiaeth, pobl a chymunedau a diwylliant a'r iaith Gymraeg ynghyd a'r allrydiau o ran yr amgylchedd.

O ran yr heriau a chyfleoedd nodwyd COVID-19, teithio llesol, gwledig/trefol, cerbydau trydan, ôl-groniad cynnal a chadw, cynllunio a thrafnidiaeth a hygyrchedd a hyder.

Soniwyd hefyd am hierarchaeth teithio gynaliadwy ynghyd a strategaeth ar dudalen.

O ran y weledigaeth nodwyd yr angen am sustem drafnidiaeth gynaliadwy a hygyrch, gyda phedwar uchelgais tymor hir

- Dod dros y rhwystrau
- Bod yn dda i'r amgylchedd
- Arloesi wrth weithredu
- Diwylliant a'r iaith Gymraeg

Cyfeiriwyd hefyd ar y Cynllun 5-Mlynedd fer ble bwriedir :

- Cynllunio ar gyfer gwell cysylltedd
- Cynyddu defnydd o'r sustem drafnidiaeth gyhoeddus
- Seilwaith trafnidiaeth ddiogel a hygyrch a gaiff ei reoli a'i gynnal a'i gadw'n dda
- Gwneud dewisiadau trafnidiaeth gynaliadwy
- Cefnogi arloesedd

Bwriedir mesur

- Effaith ar bobl a chymuned
- Effaith ar yr amgylchedd
- Effaith ar leoedd a'r economi
- Effaith ar ddiwylliant a'r Gymraeg

Bwriedir ei gyflawni drwy wneud

- Penderfyniadau buddsoddi gwell
- Cynlluniau cyflawni a gwaith thematig
- Weitio mewn partneriaethau
- Diweddaru polisïau a deddfwriaeth
- Dwyn ein hunain a'n partneriaid i gyfrif

Cyfeiriwyd hefyd at y Naw Cynllun Bach

- Teithio Llesol
- Bysiau

- Rheilffordd
- Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio
- Trydydd Sector
- Tacsis a CHP
- Llwythau a logisteg
- Porthladdoedd a morwrol
- Hedfan

I gyd yng nghyd-destun Pum Ffordd o Weithio Cenedlaethau'r Dyfodol

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

Yn dilyn y cyflwyniad, anogwyd Awdurdodau Lleol i gyd i ymateb i'r Ymgynghoriad erbyn 25/1/21.

Diolchwyd am y cyflwyniad

## 7. DIWEDDARIAD BYSIAU RHANBARTHOL

Cyflwynwyd y diweddariad gan Lee Robinson – Trafnidiaeth Cymru

**PENDERFYNIAD**

**PENDERFYNWYD** derbyn y wybodaeth oedd yn diweddaru'r Aelodau ar ddatblygiadau diweddar mewn perthynas â'r cynigion ar gyfer Rhwydwaith Bysiau Rhanbarthol a chyda chyllid parhad y Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau mewn perthynas ag effeithiau pandemig Covid 19.

**TRAFODAETH**

Cadarnhawyd, oherwydd COVID bo Trafnidiaeth Cymru yn gweithio gydag ymgymerwyr bysiau gan edrych ar ffyrdd newydd o gyllido ac ystyried pa lwybrau maent yn eu rhedeg. Cyfeiriodd hefyd ar y scheme Argyfwng Bysiau, gan gadarnhau bo sgwrs gydag ymgymerwyd ar y gweill ar gyfer 8/12/20, ond bod cyfyngiadau amser oherwydd COVID.

Cyfeiriodd at y Cytundeb Partneriaeth i drafod llwybrau a'r agenda carbon, ond cadarnhaodd bod yr ymgymerwyr yn gweld y drafodaeth yn unochrog.

Rhoddodd y Swyddog gyflwyniad ar Ddiwygio a Dyluniad Rhwydwaith Bysiau gan gadarnhau y byddent yn gweithio mewn pedwar rhanbarth Gogledd Cymru, Canolbarth Cymru, De Ddwyrain Cymru a De Orllewin Cymru.

Atgoffodd yr Is-Fwrdd eu bod wedi comisiynu darn o waith i edrych ar wyth mater penodol ar gyfer y rhanbarth a chytunodd i rannu y cyflwyniad.

Gofynnwyd am unrhyw sylwadau pellach gan yr Aelodau Cabinet cyn symud ymlaen :

Mae gwahaniaeth rhwng cefn gwlad a threfol ond mae pob Sir yma yn bresennol yn wahanol. Mae twristiaeth yn bwysig iawn, ac mae angen cael y neges honno ar draws. Sylwyd bo gwaith wedi ei ffocysu o gwmpas hybiau trefol metro - mae rhai llwybrau craidd yn gallu bod yn rhai trefol i drefol a chwestiynwyd ble mae hyn yn gweithio, sut mae modd mesur gwerth cymdeithasol a gwerth economaidd? Gofynnwyd i Drafnidiaeth Cymru beidio ag anghofio am y boblogaeth hyn wrth wneud unrhyw waith ymgynghori gan gofio nad ydym yn byw mewn cyfod arferol, cynrychiadol.

Gofynnwyd am ystyriaeth hefyd i sut mae cyllido addysg yn cysylltu, ynghyd a chyllido gofal iechyd cymdeithasol.

Nododd swyddog o Lywodraeth Cymru ei fod yn annog materion cefn gwlad yn y gymuned, ynghyd a phwysigrwydd cynllunio y rhwydwaith gan ystyried pobl mewn cymunedau.

Cytunwyd y byddai Iwan P Jones, fel paratoad i'r cyfarfod oedd wedi ei drefnu ar gyfer 18/1/21, yn cysylltu i geisio barn ar faterion bysiau.

## 8. ADRODDIADAU GWYBODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiadau gan Iwan Prys Jones

**PENDERFYNIAD**

**PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiadau gwybodaeth oedd yn rhoi diweddariad ar waith cyfredol ledled y rhanbarth gan edrych ar sut ellir trosglwyddo fflyd y sector cyhoeddus i fod yn fflyd allyriadau tra isel.

**TRAFODAETH**

Ni fu trafodaeth

Dechreuodd y cyfarfod am 10:10 am a daeth i ben am 12.05 pm..